Nodyn cynghorol am yr anawsterau a all godi wrth baratoi prydlesi cymalau penodedig

Cymal penodedig	Anhawster	Canlyniad	Ateb
LR1 i LR12	Mae unrhyw un o'r cymalau hyn wedi'i hepgor	Mae'r brydles yn sylweddol ddiffygiol – gwrthodir y cais	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu'r cymal ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
LR1 – Dyddiad y brydles	Mae'r dyddiad wedi'i hepgor	Codir ymholiad	▪ Ychwanegu'r dyddiad (y partïon i roi eu llythrennau blaen), neu ▪ os yw'n wall clerigol, gwneud cais am gywiriad dan Reol 130 gyda thystiolaeth o'r dyddiad cyflawni
	Mae'r dyddiad yn wahanol i'r dyddiad mewn man arall yn y brydles	Cwblheir cofrestru ar sail y dyddiad yn LR1	▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd wedi'i chywiro, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
LR2 – Rhif(-au) teitl	Mae rhif(-au) teitl y landlord ar goll o LR2.1	Os yw teitl y landlord yn gofrestredig eisoes mae'r brydles yn sylweddol ddiffygiol – gwrthodir y cais	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu rhif teitl y Landlord ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
	Mae rhif(-au) teitl perthnasol eraill ar goll o LR2.2	Ni wneir cofnod yn erbyn teitl(-au) perthnasol o ran materion y cyfeirir atynt yng nghymalau LR9, LR10, LR11 neu LR13 sy'n effeithio ar y teitlau hynny – bydd y sawl sydd â budd hawliau perthnasol mewn perygl	▪ Mae'r sawl sydd â budd hawliau perthnasol yn gwneud cais ar wahân ar ffurflen AP1, UN1, AN1 neu RX1, fe y bo'n briodol, i sicrhau y gwneir cofnod priodol yn y gofrestr

Cymal penodedig	Anhawster	Canlyniad	Ateb
LR3 – Partïon i'r brydles hon	Cymal heb ei gwblhau gydag enwau a chyfeiriadau'r landlord neu'r tenant	Mae'r brydles yn sylweddol ddiffygiol - gwrthodir y cais	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu'r enwau a chyfeiriadau sydd ar goll ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
LR4 – Eiddo	Cymal heb ei gwblhau gyda disgrifiad neu groes gyfeiriad	Mae'r brydles yn sylweddol ddiffygiol - gwrthodir y cais	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu disgrifiad priodol ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
	Gwrthdaro rhwng geiriad cymal LR4 a darpariaethau eraill y brydles	Dibynnir ar y geiriad yng nghymal LR4 at ddibenion cofrestru ac eithrio unrhyw eiriad arall – ni chofrestrir unrhyw dir arall y cyfeirir ato mewn man arall yn y brydles ond heb gyfeiriad ato yng nghymal LR4	▪ Pe dylai'r brydles fod wedi cynnwys tir arall heb gyfeiriad ato yng nghymal LR4, dylid ildio'r brydles a rhoi prydles newydd gyda'r telerau cywir ▪ Rhoi prydles ychwanegol o'r tir arall neu gyflawni gweithred amrywio (gall fod yn weithredol yn ôl y gyfraith fel ildio ac ail-roi), neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
	Prydles o ran – nid oes cynllun neu ni nodwyd lefel y llawr yn briodol	Os ymddengys mai prydles o'r cyfan yw'r brydles cwblheir cofrestru i gynnwys y cyfan; fel arall bydd y brydles yn sylweddol ddiffygiol – gwrthodir y cais	▪ Newid y brydles trwy atodi cynllun a lofnodwyd gan y partïon ac ychwanegu geiriau sy'n cyfeirio at lefel y llawr ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro

Cymal penodedig	Anhawster	Canlyniad	Ateb
LR5 – Datganiadau penodedig ac ati	Datganiad neu groes gyfeiriad priodol wedi'i hepgor o LR5.1 a/neu gyfeiriad at ddeddf yn LR5.2 fel sy'n ofynnol yn ôl statud/Rheolau CT	Gellir codi ymholiad neu gellir hepgor y cofnodion gofynnol	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu datganiad, croes gyfeiriad a/neu gyfeiriad at ddeddf ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
LR6 - Cyfnod prydlesu'r eiddo	Cymal heb ei gwblhau gyda manylion y cyfnod neu groes gyfeiriad priodol	Mae'r brydles yn sylweddol ddiffygiol – gwrthodir y cais	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu manylion neu groes gyfeiriad priodol ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio, neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
LR7 – Premiwm	Os oes premiwm i'w dalu, cymal heb ei gwblhau gyda'r manylion perthnasol	Codir ymholiad os oes tystiolaeth arall bod premiwm i'w dalu	▪ Newid y brydles trwy ychwanegu manylion y premiwm ac ailgyflawni ▪ Ildio'r brydles a llunio prydles newydd sy'n cydymffurfio neu ▪ Ymrwymo i weithred gywiro
LR8 – Gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar waredu'r brydles hon	Ni chynhwysir yr un o'r datganiadau priodol neu cynhwysir y ddau	Ni wneir cofnod o waharddiad neu gyfyngiad ar waredu dan reol 6 RhCT 2003	▪ Lle bo'r brydles yn cynnwys darpariaeth yn gwahardd neu yn cyfyngu ar warediadau, dylid gwneud cais ar ffurflen AP1, gan gyfeirio at y ddarpariaeth briodol yn y brydles i sicrhau y gwneir cofnod yn y gofrestr dan reol 6 RhCT 2003
LR9 – Hawliau caffael ac ati	Ni chyfeirir at hawl gytundebol berthnasol a gynhwysir yn y brydles	Ni wneir cofnod yn erbyn y teitl(-au) yr effeithir arnynt o ran yr hawl gytundebol – gall y sawl sydd â budd fod mewn perygl (gweler **LR2** uchod hefyd)	▪ Mae'r sawl sydd â budd yn gwneud cais ar wahân ar ffurflen AP1 neu AN1 neu UN1 (fel y bo'n briodol) i sicrhau y gwneir cofnod priodol yn y gofrestr

Cymal penodedig	Anhawster	Canlyniad	Ateb
LR10 - cyfamodau cyfyngu a roddir yn y brydles hon gan y Landlord o ran tir ar wahân i'r Eiddo	Mae'r brydles yn cynnwys cyfamodau cyfyngu'r Landlord ond nid yw cymal LR10 yn amlinellu'r rhain neu'n cyfeirio atynt	Ni wneir cofnod yn erbyn y teitl(-au) yr effeithir arnynt o ran cyfamodau cyfyngu'r Landlord (gweler **LR2** uchod hefyd)	▪ Mae'r tenant yn gwneud cais ar wahân ar ffurflen AP1 neu AN1 neu UN1 (fel y bo'n briodol) yn erbyn y teitl(-au) perthnasol i sicrhau y gwneir cofnod priodol yn y gofrestr
LR11 – Hawddfreintiau	Nid oes croes gyfeiriad at ddarpariaeth yn y brydles sy'n cynnwys hawddfreintiau perthynol a/neu amodol	Ni wneir cofnod yn erbyn y teitl(-au) yr effeithir arnynt o ran yr hawddfreintiau, fel na fyddant yn weithredol yn ôl y gyfraith – gall y sawl sydd â budd fod mewn perygl (gweler **LR2** uchod hefyd)	▪ Mae'r sawl sydd â budd yr hawddfreintiau yn gwneud cais ar wahân ar ffurflen AP1 i sicrhau bod yr hawddfreintiau'n cael eu cofrestru'n safonol
LR12 – Rhen-dâl ystad sy'n faich ar yr Eiddo	Mae'r brydles yn cynnwys darpariaeth sy'n creu rhent-dâl ystad ond ni chyfeirir at hyn yng nghymal LR12	Ni chofrestrir y rhent-dâl ac ni chofnodir baich y rhent-dâl yn erbyn y teitl prydlesol newydd	▪ Mae perchennog y rhent-dâl yn gwneud cais ar wahân ar ffurflen AP1 i gofrestru'r rhent-dâl, neu ▪ Mae perchennog y rhent-dâl yn gwneud cais ar ffurflen AN1 neu UN1 os yw am nodi'r baich yn erbyn y teitl prydlesol yn unig
LR13 – Cais am ffurf cyfyngiad safonol	Mae'r brydles yn cynnwys cais am gyfyngiad safonol ond ni chyfeirir at hyn yng nghymal LR13	Ni chofnodir unrhyw gyfyngiad yn y gofrestr (gweler **LR2** uchod hefyd)	▪ Dylid gwneud cais ar wahân ar ffurflen RX1 i gofrestru'r cyfyngiad
	Defnyddir cymal LR13 i wneud cais am gyfyngiad nad yw'n safonol	Gellir defnyddio cymal LR13 i wneud cais am ffurfiau cyfyngiad safonol yn unig – ni fydd y Gofrestrfa Tir yn gwneud dim	▪ Dylid gwneud cais ar wahân ar ffurflen RX1 i gofrestru'r cyfyngiad
	Mae angen cyflwyno tystiolaeth ychwanegol ar gyfer cyfyngiad safonol y cyfeirir ato yng nghymal LR13 (ee o ran caniatâd neu hawl i wneud cais)	Ni ellir cofnodi'r cyfyngiad heb dystiolaeth – codir ymholiad	▪ Cyflwyno datganiad yn dilyn y geiriad ym mhanel priodol ffurflen RX1 a darparu'r dystiolaeth ofynnol, neu ▪ Dystysgrif trawsgludwr

Cymal penodedig	Anhawster	Canlyniad	Ateb
LR14 – Datganiad ymddiried lle bo'r Tenant yn fwy nag un person	Mae'r cymal ar goll	Maw hawl hepgor y cymal lle bo un Tenant yn unig. Lle bo mwy nag un Tenant nid yw hepgor y cymal yn cydymffurfio â RhCT 2003 – bydd y Gofrestrfa Tir yn cofnodi cyfyngiad Ffurf A yn ddiofyn	▪ Os yw'r Tenantiaid yn dal fel cyd-denantiaid llesiannol, dylid gwneud cais i ddileu'r cyfyngiad ar ffurflen RX3, gyda thystiolaeth o ddal budd llesiannol
	Mae'r tenantiaid yn dal fel cyd-denantiaid llesiannol ond nid oes datganiad neu mae'r un anghywir wedi'i gynnwys	Bydd y Gofrestrfa Tir yn cofnodi cyfyngiad Ffurf A	▪ Dylid gwneud cais i ddileu'r cyfyngiad ar ffurflen RX3, gyda thystiolaeth o ddal budd llesiannol
	Mae'r tenantiaid yn dal fel tenantiaid cydradd ond gwneir y datganiad cyntaf	Ni chofnodir cyfyngiad Ffurf A	▪ Dylid gwneud cais ar ffurflen RX1 i gofnodi cyfyngiad Ffurf A